PÊL RWYD ERYRI

Dydd Sul, Medi 18eg bu pedair geneth o'r ysgol yn brwydro'n galed am le yn nhîm pêl rwyd Eryri dan 16. Wedi sawl gêm galed fe lwyddodd Diion Jones, Ela Owen, Manon Thomas a Lois Jones i sicrhau eu lle yn y tîm.

Cawsom air sydyn gyda Manon Thomas ar ran y bedair wedi eu llwyddiant.

Beth fuoch yn ei wneud i baratoi tuag at y treial?

Rydym wedi chwarae llawer gyda'r ysgol sydd wedi helpu i wella answadd ein chwarae. Yn ystod yr haf fe fuodd y bedair ohnom ni yn chawarae mewn cyngrair bêl rwyd. Golygai hyn ein bod yn chwarae gyda oedolion profiadol oedd yn golygu ein bod ni wedi gorfod codi safon ein chawarae, fe helpodd hynny i ni ddatblygu ein sgiliau.

Yn ystod y dydd beth fu rhaid i chi ei wneud er mwyn sicrhau eich lle yn y tîm?

Yn gyntaf fe fu rhaid i ni gynhesu i fyny ac ymestyn y cyhyrau. Yna am weddill y diwrnod cawson gemau yn erbyn ein gilydd gyda pawb yn arbrofi mewn safleoedd gwahanol. Yn ystod y gemau roeddem fel unigolion yn gorfod sicrhau ein body n chaware ar ein gorau er mwyn sefyll allan yng nghanol y chwaraewyr eraill.

Nawr eich bod yn rhan o'r tîm, beth fydd yn rhaid i chi ei wneud?

Y peth cyntaf y byddwn yn gwneud fel tîm bydd mynychu twrnament yn Aberystwyth ar y 1af o Hydref. Fe fydd yn gyfle i'r tîm ddod i nabod eu gilydd a chwarae a'i gilydd am y tro cyntaf. Yna fe fydd sawl ymarfer lle cawn gyfle i wella ansawdd ein chwarae fel tîm cyn cael twrnament mawr ddechrau'r flwyddyn.

Dymunwn pob hwyl i'r genod a pob lwc iddynt yn y twrnament yn Aberystwyth ar y cyntaf o Hydref.